

Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
ABERYSTWYTH
Ceredigion
SY23 3UR

Annwyl Syr / Madam,

Llywodraeth Cymru – Cymorth ar gyfer Ffermio Organig 2015-20

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Diolch ichi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â Chymorth ar gyfer Ffermio Organig 2015 -2020.

Rydym yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn arddel dull rheoli ar lefel yr ecosystem i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Mae ein hymateb manwl i'r cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad i'w gweld isod.

C1 Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru ynghylch strwythur y cymorth ar gyfer ffermio organig?

Mae CNC yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru (LIC) barhau i ddarparu cymorth i ffermio organig yn ystod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf fel mesur amgylcheddol. Mae'n cytuno hefyd y dylai'r cymorth fod ar gael i ffermwyr sy'n troi'n organig a'r rhai sydd eisoes yn rheoli'u fferm drwy system organig.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Rydym yn annog y Llywodraeth i fodloni ei hun fod cynlluniau Ffermio Organig sydd yn ôl pob golwg yn caniatáu defnyddio plaleiddiaid yn cyflawni'i hamcanion cynaliadwyedd.

Cytunwn fod cadw'r maen prawf presennol o 3ha o leiaf yn ffordd gall ymlaen.

Er bod CNC yn cydnabod manteision amgylcheddol ffermio organig, mae'n cytuno bod angen gwneud rhagor o waith cyn y gellir cadarnhau na ddylid lleihau taliadau cymorth oherwydd taliadau dwbl o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, lle mae'r cynhyrchwyr hefyd yn gymwys i gael y taliad Gwyrddu newydd o dan Golofn 1 (un ai drwy ffermio'n organig neu am fod ganddynt fwy na 75% o laswelltir parhaol).

Mae CNC yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig i gynnal Cynllun Organig Glastir fel cynllun annibynnol. Ar yr un pryd bydd unrhyw opsiynau gwirfoddol yn cael eu hintegreiddio â chyfres gynlluniau Glastir. Byddem yn falch i drafod hyn a chynnig sylwadau pellach ar yr adeg briodol.

C2 Ydych chi'n cytuno â chynigion LIC ar gyfer lefelau talu cymorth o dan y cynllun newydd?

Mae CNC yn cytuno bod sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng y taliadau troi'n organig a'r taliadau cynnal organig er mwyn adlewyrchu gwir gostau rheoli tir organig yn well yn ffordd dda ymlaen. Dylai hyn helpu i annog rheolaeth organig fwy llwyddiannus, dros gyfnod hwy, yng Nghymru.

Mae CNC yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig i barhau i gynnig cyfraddau talu gwahaniaethol yn ôl codau tir a chnydau. Bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r diffiniad o dir pori a rhostir llai dwys sy'n gymwys am gyfraddau talu is. Bydd yn bwysig sicrhau bod systemau llai dwys yn cael cydnabyddiaeth lle maent yn darparu ystod eang o fuddion amgylcheddol. Bydd angen ystyried yn ofalus wrth bennu'r cyfraddau gwahaniaethol. Bydd hyn yn sicrhau nad oes effeithiau gwrthnysig, megis colli tir pori parhaol i gnydau cylchdro, yn digwydd am fod taliadau posibl ar gael yn hytrach nag fel penderfyniadau ystyriol fel rhan o gynllun busnes.

Nid oes gan CNC unrhyw farn arwyddocaol am gyfraniadau at gostau ardystio.

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Bydd cynyddu'r terfyn cymhwyso am daliad o dan y cynllun newydd i 700ha yn fantais i ffermydd mwy. Bydd hefyd yn cynyddu'r risg y bydd llai o arian ar gael i ffermydd eraill i droi'n organig yn y dyfodol. Gellid defnyddio rhyw fath o drefn i raddol leihau'r taliadau sydd ar gael i ddaliadau mwy.

C3 Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth i fesur ymarferoldeb cynlluniau cydweithredol organig?

Mae CNC yn cytuno â'r cynnig y dylai CNC gynnal astudiaeth o ymarferoldeb a photensial cyflwyno cynlluniau cydweithredol organig yn ystod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. Gall gwell cydweithio rhwng ffermwyr ddod â buddion lluosog o ran gwerth ychwanegol a datblygu cymdeithasol ac economaidd mewn ardaloedd gwledig yn fwy cyffredinol. Mae'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd yn cynnwys Menter Mynyddoedd Cambria, yn arbennig y grŵp Brandio a Marchnata Cig Oen, Pembrokeshire Heathland Beef Initiative / Cig Tir Comin (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a chynllun Partneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn / Menter Môn.

C4 Ydych chi'n cytuno â'r trywydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig ar gyfer targedu cymorth organig?

Mae CNC yn cytuno â chynnig LIC i ddefnyddio meini prawf cynaliadwyedd amgylcheddol (ac economaidd o bosibl) i ddewis y daliadau hynny sy'n fwyaf addas i gael cymorth, yn enwedig lle mae'r gyllideb yn gyfyngedig. Bydd yn bwysig defnyddio proses dargedu a dethol. Bydd hyn yn help i ddarparu cymaint â phosibl o'r gwasanaethau ecosystem a ddymunir drwy fabwysiadu arferion rheoli tir addas; er enghraifft, drwy annog ffermio organig yn y mannau hynny lle gall helpu i fynd i'r afael â phroblemau rheoli tir neilltuol.

C5 Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi cynllun busnes go iawn ac ar gyfer datblygu'r sgiliau technegol angenrheidiol fel amod ar gyfer derbyn cymhorthdal o dan y CDG nesaf?

Mae CNC yn cytuno â chynnig LIC y dylai fod gan ymgeiswyr gynllun busnes a rheoli fferm cynhwysfawr ac y dylent allu cyrchu at gyngor lle mae hynny'n berthnasol. Mae'n bwysig fod cynlluniau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn cael eu defnyddio a'u diweddarau'n rheolaidd h.y. dylent fod yn ffynhonnell ddynamig o wybodaeth ac arweiniad. Mae gan hyfforddi a mentora rôl bwysig i'w chwarae a gellid gwneud mwy o ddefnydd o ffermydd arddangos. **Rydym yn awgrymu'n gryf y dylid cynnwys elfennau amgylcheddol allweddol yn y broses hyfforddi a chynllunio busnes fferm arfaethedig.**

Mae'n bwysig nad yw hyfforddiant organig yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n ei gadw'n llwyr ar wahân i'r arferion gorau mewn ffermio confensiynol. Trawsbeillio syniadau yw un o nodweddion gorau'r diwrnodau cig coch a ffermio organig sydd wedi cael eu cynnal. Gall cyfyngiadau ardystio organig arwain at syniadau arloesol sy'n gallu arwain at effeithiau busnes positif o'u haddasu i systemau anorganig.

C6 Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru i helpu mesurau moderneiddio ffermydd organig o dan y CDG nesaf?

Mae CNC yn cytuno â chynnig LIC i ddatblygu cynllun cymorth newydd wedi'i seilio ar fenthyciadau a/neu grantiau cyfalaf y caiff ffermwyr organig ymgeisio amdanynt. Dylai cynllun o'r fath gynnwys rheoli tail/slyri yn well, siediau gwartheg sy'n addas i'w diben a pheiriannau modern i wasgaru tail.

Mae CNC yn cytuno ei bod yn hanfodol buddsoddi i foderneiddio busnesau fferm i sicrhau eu bod yn talu'r ffordd yn y tymor hir. Dylai ffermwyr organig gael yr un cyfle â phawb arall i fanteisio ar gymorth, er na ddylent gael ffafriaeth. Cytunwn hefyd y dylai cymorth o'r fath fod yn "gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ystyr ehangach, sy'n cynnwys ystyriaethau amgylcheddol". Bydd rhaid ymdrin mewn ffordd fwy strategol â rheoli tail/slyri er mwyn sicrhau cysondeb o'r fath (gan gwmpasu sylfaen gyffredinol y cynigion yn nogfen Adnoddau Naturiol a Bwyd LIC - "Creu dyfodol cadarnach a mwy ffyniannus" – LIC Hydref 2013).

Ar hyn o bryd mae'r cymorth yn cael ei dargedu'n bennaf at ddarparu capasiti storio slyri/tail sy'n adlewyrchu'r amodau ar y fferm ar hyn o bryd. Hynny yw, nid oes sylw digonol yn cael ei roi i:-



- Unrhyw fwriad i ehangu'r fenter, yn enwedig cynyddu'r nifer o wartheg – a allai olygu na fydd y capasiti storio yn ddigonol yn y tymor canolig, neu hyd yn oed y tymor byr;
- Pa mor effeithiol yw cynllun buarth y fferm ac unrhyw gynigion ehangu; hefyd, i ba raddau y gall y rhain arwain at ormod o arwynebedd o fuarth agored Mae glaw'n disgyn ar ardaloedd felly'n gallu arwain at gynnydd dramatig yn faint o slyri sy'n cael ei gynhyrchu drwyddi draw a hynny'n arwain at bwysau i wacáu unrhyw storfeydd slyri sydd eisoes yn llawn, yn groes i'r Codau Ymarfer sydd wedi cael eu sefydlu;
- Yr anawsterau a achosir drwy beidio â chadw dŵr glaw allan o domenni tail solet – wedyn ceir dŵr sy'n llygru yn draenio ac nid yw hwnnw efallai yn cael ei ddal i'w ddychwelyd i'r tir.

Mae arferion o'r fath yn cynrychioli colled net o faetholion – i'r amgylchedd ehangach fel arfer – ac nid ydynt yn gynaliadwy.

Mae CNC yn awgrymu felly y dylid datblygu system syml o "wiriadau" sydd i gael eu cwblhau cyn bod systemau tail/slyri yn cael eu newid, na grantiau'n cael eu rhoi ar gyfer storfeydd slyri na pheiriannau yn gysylltiedig â hynny.

Byddai'r gwiriadau syml hyn yn golygu cyfrifo faint o slyri/tail heb ei wanedu â dŵr a gaiff ei gynhyrchu. Byddai hefyd yn cynnwys cyfrifo maint y glawiad a'r dŵr wedi'i lygru sy'n draenio y mae angen ei storio wedyn; gallai hwn orlethu systemau slyri os nad oes dulliau rheoli derbyniol eraill yn cael eu mabwysiadu o'r cychwyn. Lle gwelir bod yr elfen "yn gysylltiedig â glawiad" yn uchel, byddem am weld:

- Cynllun rheoli syml, yn amlinellu sut mae'r cyfaint cymharol fawr hwn o ddeunydd ychwanegol i gael ei reoli'n gynaliadwy. Nid ydym yn rhagweld y byddai hyn yn codi yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, ond rydym yn cydnabod fod rhai ffermwyr am reoli'u slyri "wedi'i wanedu" yn helaeth neu mewn cyflwr gydag "ychydig iawn o Ddeunydd Sych".
- Mesurau'n cael eu mabwysiadu i leihau'r deunydd ychwanegol i gyfeintiau y gall y ffermwr eu defnyddio mewn modd cynaliadwy (gan osgoi'r angen i wasgaru tail/slyri yn hwyr yn yr hydref/yn gynnar yn y gaeaf, pan allai'r rhan fwyaf o faetholion gael eu colli i'r amgylchedd gydag effaith niweidiol ar ansawdd dŵr).

Dylai trefn o'r fath helpu i sicrhau:



- Cyfleusterau storio tail/slyri llai, gan arwain at arbedion cost posibl i'r ffermwr a gostyngiad yn y grant (neu fathau eraill o gymorth) ar gyfer yr hyn a fyddai fel arall yn "storfeydd mwy, a mwy costus". Gellid defnyddio'r arbedion o'r drefn hon i wneud iawn am y costau a wynebwr i wahanu dŵr glaw ac ati yn well oddi wrth ffynonellau slyri, er y gallai fod achos o blaid darparu cymorth grant/cymorth arall yn uniongyrchol ar gyfer peth gwaith o'r fath.
- Bod tail/slyri yn cael eu rheoli'n llawer gwell, gan arwain at lai o risg o ddigwyddiadau llygru o ffynhonnell benodol. Hefyd, ac yn bwysicach, byddai'n arwain drwyddi draw at lai o ddifrod i dir; oherwydd bydd slyri yn arbennig yn fwy tebygol o gael ei wasgaru ar yr adeg orau, yn hytrach nag fel sy'n digwydd rŵan, lle mae llawer o systemau storio yn llythrennol yn gorlifo â gormod o law a hynny'n "gorfodi'r" ffermwr i wasgaru ar y tir mewn amgylchiadau cwbl anaddas.
- Gwell cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a deddfwriaeth arall
- Gwelliannau yn ansawdd dŵr a thir lleol, yn cynnwys gwell amddiffyniad i Ddyfroedd Ymdrochi, Dyfroedd Pysgod Cregyn ac amddiffyniad i fuddiannau dilys eraill (pysgota a hamdden) ymhellach i lawr yr afon.
- Cynnydd yn erbyn targedau allweddol eraill, megis gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ac amonia (fel sydd wedi'i amlygu drwy'r rhaglenni Mapio Llefrith a Chig Coch) yn deillio o reoli buarthau yn well, gyda gostyngiadau yn yr arwynebedd y collir amonia a deunyddiau eraill ohono i ddŵr ac i'r atmosffer.

Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei drafod yn ddiweddar gyda'r tîm yn LIC sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun Cyswllt Ffermio a hefyd gyda Menter a Busnes. Hoffai CNC weld yr egwyddorion hyn yn cael eu gwreiddio yng Nghynllun Cyflawni 2014 Cyswllt Ffermio, i sicrhau bod canllawiau pellach yn cael eu datblygu a'u cylchredeg a fydd yn help i ffermwyr weithio yn y ffyrdd sydd wedi'u nodi uchod.

Yn gywir



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Ionawr 2014

Ffôn/Tel 02920 466047 Ffacs/Fax 02920 466413
Ebost/Email ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English